

Trysor Y Capten Enlli Gwenllian

(o Bwllheli)



Un Noson Ofnadwy

Croeso i dafarn Y Llongwr Llawen.

Dewch i mewn.

Beth gymrwch chi?

Cwrw? Brandi? Rým?

Rým, wrth gwrs.

Rým yw'r unig ddiod addas

ar gyfer noson fel heno.ý

Eisteddwch i lawr

o flaen y tân.

Daf i â'r rým draw atoch chi

mewn munud.

O le dych chi wedi dod heno?

O Gaernarfon!

Wel, wel. Dych chi wedi teithio'n bell.

Iesgyrn Dafydd...Gwrandewch
ar y tywydd ofnadwy'na.
Mae hi'n noson wyllt, stormus heno.
Mae hi mor dywyll â bola buwch.
Mae'r gwynt yn udo
trwy ganghennau'r coed
ac yn treiddio fel cylllell
trwy bob teithiwr anffodus
mâs fan'na.
Mae'r glaw yn chwipio'u hwynebau
a'r oerfel yn rhewi'u gwaed.
Mae dagrau yn rhedeg
i lawr bochau
pawb sy'n ddigon ffôl
i fod mâs
ar noson fel heno.
Heb reswm digonol, hynny yw.
Dôn i ddim yn cyfeirio atoch chi,
wrth gwrs.

Wyddoch chi,
mae'n fy atgoffa i
o noson stormus arall
yma'n y dafarn
ddeng mlynedd yn union yn ôl
i heno.
Dw i'n cofio'r noson
fel 'sa hi'n ddoe.
Rôn i'n sefyll tu ôl y bar
yn fan'na
pan agorodd y drws
a daeth yr hen forwr'ma
i mewn.
Roedd y lle'n llawn o ddieithriaid
y noson honno,
digwydd bod.
Pobl o'r Gogledd,
fel mae'n digwydd.
O Gaernarfon.
Dôn i ddim yn gwybod pam oedd
pobl o'r Gogledd
wedi dod i lawr
i'n hardal fach ddiarffordd ni.
Doedd hi ddim yn fusnes i fi.

*Ond ar ôl i'r hen forwr gerdded i mewn
daeth hi'n amlwg*

*eu bod nhw wedi dod yma
i gwrdd â fe.*

*Roedd pawb yn llygadu'i gilydd
ond neb yn dweud gair.*

*Cerddodd e lan at y bar,
archebu poteled o rým
ac yna,*

*hen ddweud gair mwy wrtho i,
trodd at y Gogleddwyr oedd yn eistedd
yn fan hyn, wrth y tân,
jest fel dych chi'n wneud.*

A dyma fe'n dechrau ar ei stori.



Gwrandewch

ar y tywydd ofnadwy'na, gyfeillion.

Mae hi'n noson wyllt, stormus heno.

Mae hi mor dywyll â bola buwch.

Mae'r gwynt yn udo
trwy ganghennau'r coed
ac yn treiddio fel cylllell
trwy bob teithiwr anffodus
mâs fan'na.

Mae'r glaw yn chwipio'u hwynebau
a'r oerfel yn rhewi'u gwaed.

Caewch y drws.

Caewch y llenni.

Dewch yn agosach

at y tân.

Cymrwch ddracht arall o'ch rým

i dwymo'ch hunain

ac **agorwch** eich clustiau.


Agorwch eich clustiau

ac fe gewch chi glywed hanes

noson wyllt, stormus arall.

Noson **fwy gwyllt, fwy stormus** na heno

ym mhen draw'r byd.



Ond **cadwch** eich cegau ar gau.

Peidiwch ag ailadrodd gair

o'r hyn

y **bydda i'n ei ddweud wrthoch chi** heno.

Ddim os dych chi isie byw.

Dych chi'n clywed hynny Mr. Tafarnwr?

Mae **clustiau** gyda'r coed
a **llygaid** gyda'r llwyni.

Roedd hi'n noson wyllt, stormus
yn y Cefnfor Tawel
ddeg mlynedd yn union
yn ôl i heno.
Rôn i, Ceredig Caradog ,
ar fwrdd Y Tywysog Madog
ar fordaith hir
i Tseina bell.

Roedd y gwynt yn udo fel bwystfil.
Roedd y tonnau'n uwch
na thŵr eglwys Aberteifi
a'r cwch yn cael ei daflu o gwmpas
fel tegan plentyn anystywallt.

Roedd y morwyr yn rhedeg o gwmpas
yn wyllt
yn ceisio clymu ac ailglymu'r cargo
yn sownd i'r dec.

Yn sydyn
dyma ni'n clywed crac anferth
a phan **edrychon ni lan**
yr hyn welson ni
oedd bod y mast wedi torri
yn ei hanner.
I lawr ag e.
Crash!

“Mae hi ar ben arnon ni”
gwaeddodd Dafydd Un Dant.
“**Dyn ni'n mynd** i foddi.”

Yn sydyn **gwahanodd y cymylau**
a **gwelodd Berwyn Un Bys**
amlinelliad mynydd serth yn codi
mâs o'r môr yn syth o'n blaenau ni.
“**Drychwch, Capten**”
medde fe
gan bwyntio gyda'i un bys.



“Pawb i’r badau achub”
gwaeddodd Y Capten Rhydderch Prydderch.
“Mae ynys yn ymyl.”

A dyma ni’n tynnu’r badau i lawr
ac i mewn iddyn nhw
aeth yr holl griw.

“Rhwyfwch am eich bywydau”
gwaeddodd Ifan Un Fraich.
“Dw i wedi anghofio’r parot”
gwaeddodd Gwilym Un Goes.
“Rhy hwyr”
medde Ceidiog Unllygeidiog.
“**Mae’n rhaid i ni gyrraedd yr ynys.**”
Ac felly yr **aethon ni,**
yn rhwyfo am ein bywydau
i gyfeiriad yr ynys.
Roedd y gwynt yn fyddarol,
y tonnau’n filain
a’r golau’n pylu.

Yn sydyn **dyma don anferth**
yn golchi dros y bad
ac yn fy mwrw i
dros yr ochr ac i mewn i'r môr.
Llynnes i lond ceg o ddŵr hallt.
Pan ddaeth fy mhen allan o'r dŵr
roedd y badau yn bell oddi wrtha i.
Roedd y cyrrent yn gryf
ac yn fy nhynnu i
i gyfeiriad gwahanol.
Tries i nofio at y badau
ond **roedden nhw'n** ymbellhau
ac yn ymbellhau.
Roedd y tonnau uchel
yn golchi drosto i
ac **rôn i'n llyncu** mwy a mwy o ddŵr.
Yn y diwedd,
roedd yr ymdrech yn ormod i fi
a llithres i
o dan y dŵr.

Pan ddihunes i
roedd yr haul yn tywynnu
a'i wres yn llosgi fy wyneb.



Agores i fy llygaid
yn ara' deg
a dyna pryd y **sylwes i**
ar hen ddyn yn eistedd
wrth 'yn ochr i.

“A....” **medde fe.**
“**Rwyt ti wedi** dihuno.
Dôn i ddim yn siwr neithiwr
a **fyddet ti'n** byw neu beidio.”

“Ble ydw i?” **gofynnnes i.**
“A ble mae gweddill y criw?”

“**Mae'r** criw i gyd
wedi'u cario gan y cyrrant
i un o'r ynnysoedd eraill
sydd ychydig filltiroedd i'r De
o fan hyn”
medde fe.
“Naill ai hynny
neu **maen nhw'n cysgu** gyda'r gwymon
yn locer Dafydd Jones.
Beth bynnag,
weli di byth ohonyn nhw eto.”


Codes i ar 'yn eistedd.
“Pwy ych chi?
A shwt **daethoch chi** i'r ynys yma?”

“Pwy ydw i?
Dw i wedi bod yma
ers cymaint o amser
dw i bron ag anghofio
pwy ydw i.
Ond pan ôn i'n byw
yn Abergwaun
roedd pawb yn 'y ngalw i'n Bili.”

“Bili?”

“Ie. Bili Dowcar.
Achos mod i'n dda iawn am ddeifio
oddi ar glogwyni.

A sôn am glogwyni
wyt ti'n gweld y marciau'na
ar y clogwyn serth y tu ôl i ti?
Dw i wedi gwneud marc arno fe
bob dydd ers i fi
gael 'y ngolchi i'r lan
fan hyn ar y traeth
ddeng mlynedd yn union yn ôl
i neithiwr."



Tu ôl iddo fe
roedd clogwyn yn llawn marciau
wedi'u crafu
i gofnodi'r dyddiau, yr wythnosau,
y misoedd a'r blynyddoedd
ers iddo fe fyw
ar yr ynys.
Oeddodd Bili am ychydig
a syllu allan ar y tonnau ar y môr

"Roedd hi'n noson wyllt, stormus
neithiwr
ond agora dy glustiau
ac fe gei di glywed hanes
noson wyllt, stormus arall."

Noson fwy gwyllt, fwy stormus na neithiwr
yma ym mhen draw'r byd.

Oedd. Roedd hi'n noson wyllt, stormus
yn y Cefnfor Tawel
ddeg mlynedd yn union
yn ôl i neithiwr.
A dw i'n cofio'r noson
fel 'sa hi'n ddoe.

Rôn i ar fwrdd Y Morgi Coch,
llong môr-ladron,
llong Y Capten Enlli Gwenllian o Bwllheli,
môr-leidr mwyaf milain
y cefnforoedd.



Er gwaethaf y graith fechan
o dan ei chlust chwith
roedd Y Capten Enlli Gwenllian
yn fenyw hardd eithriadol
gyda gwallt du fel y frân
a llygaid du, treiddgar
fel talpau o lo carreg
yn disgleirio yn ei phen.
Ond roedd ei chalon
yn dduach na'r pydew duaf
yng nghrombil y ddaear.

Rôn i a deg morwr arall
wedi cael ein cipio gan
y capten Enlli Gwenllian
ar ôl iddi hi a'i chriw ymosod
ar ein llong ni
ychydig filltiroedd
i'r Gogledd o Santiago.

Cawson ni ddewis gyda hi –
ymuno gyda'i chriw
neu gerdded y planc!
Dewison ni ymuno gyda'i chriw,
wrth gwrs.

Bues i'n fôr-leidr ar
Y Morgi Coch
am ddeng mlynedd.
Deng mlynedd
o ymosod ar longau cargo,
dwyn trysorau di-ri'
a gorfodi morwyr diniwed eraill
naill ai i ymuno gyda ni
neu gerdded y planc.

Ar ôl blynyddoedd o ysbeilio
llongau cargo
ar hyd a lled y Cefnfor Tawel
roedd y capten Enlli Gwenllian
wedi adeiladu ffortiwn
iddi hi ei hunan.
Un diwrnod
penderfynodd hi
ei bod hi isie cadw'r holl ysbail
roedd hi wedi'i ddwyn
mewn lle diogel.
Felly, ddeng mlynedd yn union yn ôl i ddoe
ges i a thri morwr arall
ein dewis
i fynd gydag Enlli Gwenllian
i gladdu cist llawn ysbail
yma
ar Yr Ynys Siâp Llaw
mewn lle cyfrinachol.

Llwython ni'r gist yn y bad rhwyfo
a rhwyfo i mewn
i'r bae bychan hwn.
Ar ôl clymu'r bad
wrth y goeden balmwydd yna
draw fan'na
carion ni'r gist
trwy'r jwngl,
dros bont raffau
oedd yn croesi ceunant dwfn,
i ben Y Mynydd Siâp Penglog
ac i mewn i'r ogof.



“Dechreuwch balu fan hyn”
medde Enlli Gwenllian.
Roedd hi'n dwym iawn yn yr ogof
a chymrodd hi ddwy awr
i'r pedwar ohonon ni
balu twll, rhoi'r gist ynddo fe
a'i orchuddio fe unwaith eto.

“Nôl â ni i'r Morgi Coch”
medde Enlli Gwenllian.

A dyma ni'n dechrau nôl
i lawr o'r Mynydd Siâp Penglog
a dros y bont rhaffau
oedd yn croesi'r ceunant.
"Cera di gyntaf, Bili"
medde Enlli Gwenllian.
"Af i nesaf
a dewch chi'ch tri
ar fy ôl i."

Cerddes i ar draws y bont
a daeth Enlli Gwenllian
yn syth ar fy ôl i.
Yna, yn sydyn,
tynnodd hi ei chleddyf allan
a gydag un ergyd
torrodd y rhaff oedd yn dal
ochr chwith y bont yn sownd.
Trodd y bont
ar ei hochr
a syrthiodd y tri morwr anffodus
i lawr i'r ceunant
a'r afon wyllt
oddi tannodd
gan weiddi *Aaaaaaaaaaaaaaaaaaaaaaaaaaaaaa!*
Yna, tynnodd ei phistol allan
a'i bwyntio ata i.
"Nôl â ni i'r Morgi Coch.
A gair o gyngor i ti.
Paid hyd yn oed â meddwl
am geisio dianc."
Felly **cerddon ni nôl**
at y bad rhwyfo.

Gorchmynnodd Enlli Gwenllian fi
i ddatod y rhaff
oddi ar y goeden balmwydd,
gwthio'r bad rhwyfo i mewn i'r dŵr
a'n rhwyfo ni
nôl at y Morgi Coch.
Roedd Enlli Gwenllian
yn dal i bwyntio'i phistol
ata i.



Roedd Y Morgi Coch
mâs yn eithaf pell
yn y bae
ar roedd hi'n cymryd mwy o amser
i ni ddychwelyd
achos taw
dim ond fi oedd yn rhwyfo.
Yn sydyn,
pan oedden ni hanner ffordd
at y Morgi Coch
newidiodd y tywydd.
Daeth cymylau duon iawn o'r De,
dechreuodd tonnau
daro yn erbyn y bad
a dechreuodd hi fwrw glaw
yn drwm iawn.
Yna, gwelson ni flach o luced yn yr awyr
a chlywed clap anferth o dyrfau.
Cyn bo hir
roedd y gwynt yn udo fel bwystfil,
roedd y tonnau'n uwch
na thŵr eglwys Aberaeron
a'r bad yn cael ei daflu o gwmpas
fel tegan plentyn anystywallt.

“Rhwyfa’n glouach”
gwaeddodd Enlli Gwellian.
“Mae’n rhaid i ni gyrraedd
Y Morgi Coch
cyn i’r storm ein taro ni.”

A dechreues i
rwyfo am fy mywyd
i gyfeiriad Y Morgi Coch.
Ond roedd hi’n rhy hwyr.
Roedd y gwynt yn fyddarol,
y tonnau’n filain
a’r golau’n pylu.
Yn sydyn dyma don anferth
yn golchi dros y bad
ac yn fy mwrw i
dros yr ochr ac i mewn i’r môr.
Llynces i lond ceg o ddŵr hallt.

Pan ddaeth fy mhen allan o’r dŵr
roedd y bad yn bell oddi wrtha i.
Roedd y cyrrent yn gryf
ac yn fy nhynnu i
i gyfeiriad gwahanol.
Tries i nofio at y bad
ond roedd yn ymbellhau
ac yn ymbellhau.
Roedd y tonnau uchel
yn golchi drosto i
ac rôn i’n llyncu mwy a mwy o ddŵr.
Yn y diwedd,
roedd yr ymdrech yn ormod i fi
a llithres i
o dan y dŵr.

Y bore wedyn
dihunes i fan hyn ar y traeth
gydag awyr las a heulwen llachar
uwch fy mhen.
Doedd dim golwg o’r bad rhwyfo
na’r Morgi Coch.

Dw i ddim yn gwybod
hyd y dydd heddiw
beth ddigwyddodd
i'r Capten Enlli Gwennlian
a'i chriw
ond dw i wedi byw yma
ers deng mlynedd
ac yn ystod y cyfnod yna
ti yw'r unig berson byw
i lanio ar yr ynys felltigatedig hon.”



A thorri stori hir yn fyr,
bues i, Caradog,
yn byw
ar yr ynys felltigatedig honno
am ddeng mlynedd
(am bum mlynedd
ar fy mhen fy hun
ar ôl i Bili ddiflannu
un noson stormus).
Ond yna, un diwrnod,
ges i'n achub
gan long oedd ar y ffordd adref
i Lundain
o Tseina.

Sonies i ddim byd wrth griw
y llong honno
am y trysor sydd wedi'i gladdu
ar yr ynys.

Efallai y **bydden nhw**
wedi dwyn y trysor
a fy ngadael i yno.
“**Daf i nôl** ryw ddydd
i gasglu'r trysor”
medde fi wrtho i'n hun.

A dyna pam **dw i yma** heno, gyfeillion.

Dw i'n chwilio am gapten
a chriw o forwyr dewr a gwydn
i fynd â fi nôl
i'r Mynydd Siâp Penglog
ar Yr Ynys Siâp Llaw.
Mae digon o ysbail yno i'w rannu
rhwng pob aelod o'r criw.
Os oes diddordeb gyda chi
dewch nôl fan hyn
ymhen wythnos i heno.



*Ac yna,
heb ddweud gair mwy wrth neb
dflannodd Ceredig Caradog
trwy'r drws
a mâs i'r glaw.*

*Wythnos yn ddiweddarach
roedd hi'n noson stormus, wyllt arall
ac roedd y dafarn yn llawn
o forwyr dewr a gwydn.*

*Ond er iddyn nhw aros
am oriau ac oriau
ddaeth Ceredig Caradog ddim
ar gyfyl y lle.*

*A does neb wedi clywed gair
o'i hanes
byth ers y noson stormus, wyllt honno
union ddeng mlynedd yn ôl i neithiwr
pan ddiplannodd e
mâs o ddrws y dafarn
i mewn i'r duwch tu allan.*

*Ond neithiwr,
digwydd bod,
daeth menyw ganol oed
drawiadol iawn yr olwg
i mewn yma,
menyw gyda gwallt du
yn dechrau britho
a dau lygad du, treiddgar
fel talpau o lo carreg
yn disgleirio yn ei phen.*

*Roedd cleddyf yn hongian
o'i gwregys
a phistol wedi'i stwffio
i mewn i'w throwsus.
Ac roedd craith fechan gyda hi
o dan ei chlust chwith.*

*Eisteddodd hi i lawr wrth y tân
gyda'i rým
a thynnu map allan.
Ac wrth i fi fynd i roi
mwy o goed ar y tân
digwyddes i weld cip o'i map.*

*Stopies i'n stond
achos yng nghanol y map
roedd ynys siâp llaw
ac arni hi fynydd siâp penglog.*

*Sylwodd y wraig
mod i'n edrych ar y map
a dyma hi'n ei gau'n syth.*

*Drachtiodd hi'r rým ar ei ben
ac yna,
heb ddweud gair mwy
wrtha i na neb arall,
diflannodd hi
mâs o ddrws y dafarn
ac i mewn i'r duwch tu allan.*



Y Diwedd